WYTHNOS 5

BETH YW GRAS?

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw egluro gras Duw a'i oblygiadau.*

Trowch gyda mi i Marc pennod 1, adnod 1. "Dechrau Efengyl (newyddion da) Iesu Grist, Mab Duw." Rydym wedi dechrau ymchwilio i pam yn union y mae Marc yn disgrifio Iesu fel "newyddion da." Rydym wedi gweld pwy yw Iesu: bod ganddo bŵer ac awdurdod Duw ei hun. Rydym wedi gweld beth y daeth i'w wneud: daeth i achub pechaduriaid fel chi a fi trwy farw drosom ar y groes.

Gadewch i mi ddechrau'r wythnos hon trwy ofyn i chi ysgrifennu eich ateb i'r cwestiwn canlynol. Mae'n debyg i'r cwestiwn y mae'r dyn yn ei ofyn i Iesu yn y darn yr ydym newydd edrych arno yn ein TRAFODAETH GRŴP.

> *Dangoswch y cwestiwn canlynol a'i ddarllen allan yn uchel.*

- **Pe baech yn marw heno ac y byddai Duw yn gofyn, "Pam ddylwn i dy adael i mewn i'r nefoedd?" beth fyddech chi'n ei ddweud?**

Cymerwch 2 funud i ysgrifennu eich ateb.

> *Caniatewch ddau funud i'r cyfranogwyr ysgrifennu eu hatebion.*

Mae'n ddrwg gen i fod yn morbid, ond pe baech chi'n marw heno ac yn ffeindio'ch hun yn sefyll o flaen Duw ac y byddai Ef yn gofyn, "Pam ddylwn i dy adael i mewn i'r nefoedd?" beth fyddech chi'n ei ddweud? Yn ôl y Beibl, mae'r atebion i'r cwestiwn hwn bob amser yn disgyn yn daclus i un o ddau gategori: "yr ateb cywir," neu "yr ateb anghywir."

Beth am edrych ar yr atebion anghywir gyntaf. Ateb anghywir yw un sy'n rhoi hyder yn yr hyn ydw i, neu'r hyn yr ydw i wedi'i wneud. Felly os ydych wedi ysgrifennu, "Duw, dylet fy ngadael i mewn i'r nefoedd oherwydd fy mod ..." Mae arna i ofn eich bod ar y trywydd anghywir.

> *Bydd yn rhaid i chi ysgrifennu pob un o'r atebion anghywir hyn yn fawr ar ddarnau o bapur ar wahân. Daliwch bob un ohonynt i fyny wrth i chi eu darllen.*

Efallai eich bod wedi ysgrifennu rhywbeth fel, "O Dduw gad i fi ddod mewn oherwydd rwyf wedi bod yn gymharol dda ar y cyfan …
• Rwy'n berson da
• Dydw i ddim yn dwyn
• Dydw i ddim yn dweud celwydd
(wel, heblaw bod gwirioneddol raid i mi)
• Rwy'n rhoi arian i elusennau
• Dydw i'n sicr ddim wedi lladd unrhyw un.
(A dweud y gwir, mae yna lawer o bobl sy'n waeth na fi)
• Rwy'n talu fy nhrethi
• Dydw i ddim yn gyrru trwy oleuadau coch
… Mae pobl eraill yn hoff o fod yn fy nghwmni, Dduw, felly rwy'n dychmygu y byddet ti hefyd."

Maent yn swnio fel atebion rhesymol. Ond gallaf eich sicrhau na all unrhyw un o'r pethau hyn eich helpu o gwbl i fynd i'r nefoedd.

Ateb anghywir arall yw'r un crefyddol. Efallai eich bod yn dibynnu ar eich arferion crefyddol i gael i mewn i'r nefoedd. Felly efallai eich bod wedi ysgrifennu rhywbeth fel: "Duw, dylet adael i mi ddod i mewn oherwydd…
• Rwy'n mynd i'r capel
• Dydw i ddim yn cymryd dy enw'n ofer
(a phan mae eraill yn gwneud, rwy'n anghytuno'n gryf)
• Rwy'n gwneud pethau da yn y gymuned
• Rwyf wedi cael fy medyddio
• Rwy'n mynd i'r gwasanaeth cymun
• Rwy'n canu yn y côr
• Rwy'n gweddïo a darllen y Beibl
… Ac allwch chi ddim dweud hynny am lawer o bobl yn y byd sydd ohoni."

Rydych yn iawn eich bod ymhlith y lleiafrif. Ond mae'r atebion crefyddol yn dal i fod yn anghywir. Os ydych wedi ysgrifennu rhywbeth tebyg, yna gadewch i mi ddweud wrthych nawr na wnaiff gwneud y pethau crefyddol hyn alluogi i chi fynd i'r nefoedd. Dro ar ôl tro, mae Iesu'n dysgu nad oes gan gadwraeth grefyddol unrhyw bŵer i achub pobl. Os ydych yn rhoi eich hyder yn y pethau hyn, yna peidiwch, oherwydd rydych wedi cael eich camarwain.

Yn wir, mae unrhyw ateb sy'n rhoi hyder yn yr hyn ydw i, neu'r hyn yr ydw i wedi'i wneud yn gwbl ddiwerth. Nid yw atebion sy'n dechrau gyda "Duw, dylet fy ngadael i mewn i'r nefoedd oherwydd fy mod ..." yn dda i ddim i chi

> *Casglwch bob darn o bapur sydd ag atebion anghywir arnynt a'u rhwygo'n ddarnau.*

Nawr, does dim byd o'i le â'r pethau hyn ynddynt eu hunain. Mae'n dda bod pobl yn ceisio byw bywydau didwyll ac anhunanol. Ond ni wnaiff y *pethau da* yr ydym yn eu gwneud alluogi i ni fynd i'r nefoedd. Pam? Oherwydd ni allant ddatrys problem ein pechod.

Cofiwch yr hyn ddywedodd Iesu yn Marc pennod 7, adnodau 20-23. Beth am ddarllen yr adnodau hyn eto.

> *Darllenwch Marc 7:20-23 allan yn uchel.*

Dydy'r pethau da yr ydym yn eu gwneud yn cyfrif dim o flaen Duw, oherwydd mae ein problem allweddol i'w chael yn ddwfn yn ein calonnau. Pan fo Iesu'n sôn am y galon nid sôn am y pwmp sy'n pwmpio'r gwaed o amgylch y corff y mae. Mae'n cyfeirio at graidd eich bodolaeth - ffynhonnell eich holl gymhellion a greddfau, dymuniadau a breuddwydion.

Mae Iesu'n dweud "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl ac â'th holl nerth." Ond nid ydym yn byw fel hyn, nid dyna guriad ein calon. Felly mae ein gweithredoedd da, beth bynnag fônt, yn iawn ynddynt eu hunain - ond nid ydynt yn dda i ddim ar gyfer datrys y broblem sy'n ein cadw oddi wrth Dduw: ein pechod.

Yn ôl Iesu, ein problem fwyaf yw'r hyn ydym ni, yn ddwfn yn ein calonnau. Rydym yn bechadurus. Ac allwn ni ddim gwneud unrhyw beth i newid hynny. Mae ein gweithredoedd da fel plasteri: efallai eu bod yn gorchuddio sut bobl ydym ni go iawn, ond nid oes ganddynt unrhyw bŵer i'n hiacháu ni.

Eto, hoffwn bwysleisio nad oes unrhyw beth o'i le ar weithredoedd da. Yr unig adeg y maent yn beryglus yw os ydym, fel y Phariseaid ac athrawon y gyfraith yn Marc, yn twyllo ein hunain i feddwl y bydd Duw yn ein derbyn o ganlyniad iddynt. Roedd yr awdurdodau crefyddol hyn eisoes wedi penderfynu ar y meini prawf ar gyfer cael eu derbyn gan Dduw. Roeddent yn cadw eu rheolau a'u traddodiadau eu hunain. Roedd cael Duw i'w derbyn yn golygu rhoi sylw i fanylion allanol: er enghraifft, roeddent i olchi mewn ffyrdd arbennig ac osgoi bwyta rhai pethau. Roedd y cyfan yn ddefod allanol, ac nid oedd yn ymdrin â'r problem fewnol o gwbl: sef hunanoldeb y galon ddynol. Dyna pam y mae Iesu'n dweud amdanynt: "Mae'r bobl hyn yn fy anrhydeddu a'u gwefusau, ond mae eu calonnau'n bell oddi wrthyf. Maent yn fy addoli yn ofer; rheolau a ddysgir gan ddynion yn unig yw eu dysgeidiaeth." Mae'n llawer haws canolbwyntio ar yr ymddangosiad allanol, rhoi rhywfaint o blasteri ymlaen, yn hytrach na wynebu'r hyn sydd oddi mewn, ac mae Iesu'n mynnu na all unrhyw faint o draddodiad crefyddol neu foesoldeb neu ddarllen y Beibl neu "droi dalennau newydd" ddod â'n calonnau'n agosach at Dduw.

Oherwydd allan o'n calonnau y daw "[m]eddyliau drwg, puteinio, lladrata, llofruddio, godinebu, trachwantu, anfadwaith, twyll, anllad rwydd, cenfigen, cabledd, balchder, ynfydrwydd." Beth am fod yn onest am ein calonnau ein hunain, a cheisio cymhwyso'r geiriau ar y rhestr hon i ni ein hunain. Gadewch i mi ofyn:

- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi dweud celwydd erioed?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi meithrin unrhyw chwerwedd na chasineb erioed?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi clebran erioed?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi dangos hunanoldeb na thrachwant erioed?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi cychwyn sgwrs sydd â diben pennaf o hyrwyddo eich hunain o flaen eraill erioed, hyd yn oed os ydych yn gwneud hynny'n gynnil iawn?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi cael meddyliau brwnt erioed?
- Sut beth fyddai hi i beidio â bod wedi teimlo'n ddialgar neu rywfaint yn genfigennus wrth glywed am lwyddiant eraill erioed? Fel y cyfaddefodd yr awdur Gore Vidal: "Pan fydd ffrind yn llwyddo, mae rhywbeth bach ynof yn marw."

A sut beth fyddai hi - ar yr ochr gadarnhaol - i fod wedi caru Duw â'ch holl galon, enaid, meddwl a nerth erioed? Sut beth fyddai hi i fod wedi caru pawb arall fel chi eich hun erioed?

Mae hyd yn oed Paul, un o'r gweithwyr Cristnogol mwyaf effeithiol yn hanes y byd, yn galaru am gyflwr ei galon wrth ysgrifennu Rhufeiniad pennod 7, adnod 19: "Yr wyf yn cyflawni, nid y daioni yr wyf yn ei ewyllysio ond yr union ddrygioni sy'n groes i'm hewyllys." Mae geiriau Iesu am ddrygioni calon dynion yr un mor wir i Paul ag ydynt i ni. Allwn ni, yn yr un modd â'r Phariseaid, obeithio y bydd y pethau da yr ydym yn eu gwneud yn gorchuddio'r drygioni yn ein calonnau? Na, yn ôl Iesu, dyna'r ateb anghywir. *Nid oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i'm hachub fy hun.*

Ond diolch byth, nid dyna ddiwedd y stori. Mae yna ateb cywir i gwestiwn Duw, "Pam ddylwn i dy adael i mewn i'r nefoedd?" Yn ôl y Beibl, mae'r ateb cywir yn ymwneud â *gras* Duw. Dylai'r ateb cywir swnio rhywbeth fel hyn: "Duw, dylet fy ngadael i mewn i'r nefoedd, nid oherwydd unrhyw beth yr wyf fi wedi'i wneud, ond oherwydd yr hyn y mae Crist wedi'i wneud." Mewn geiriau eraill, nid yw'n ymwneud â'r pethau da yr ydym ni wedi'u gwneud i Dduw, ond yn hytrach mae'n ymwneud â'r peth da y mae Crist wedi'i wneud i ni. Bu farw ar y groes er mwyn i ni gael maddeuant am ein pechodau. Cefnwyd arno er mwyn i ni gael ein derbyn.

Trowch gyda mi at Effesiaid pennod 2, adnodau 8 a 9:

> *Darllenwch Effesiaid 2:8-9 allan yn uchel.*

Felly rydym yn cael ein hachub trwy *ffydd*, trwy roi ein ffydd yn yr hyn y gwnaeth Iesu drosom ar y groes. Nid ydym yn cael ein hachub trwy unrhyw beth yr ydym ni'n ei wneud, trwy fod yn bobl neis, trwy dalu ein biliau ar amser, neu trwy fynd i'r capel neu ddarllen y Beibl. Na, rydym yn cael ein hachub rhag cosb dragwyddol trwy farwolaeth Iesu ar y groes, ac mae'n rhodd. Allwch chi ddim ei ennill "trwy weithredoedd." Allwch chi ddim brolio am y peth. "Rhodd Duw ydyw."

Yr unig faddeuant sydd ar gael i ni yw'r maddeuant a geir trwy'r hyn y mae Iesu wedi'i wneud. Oherwydd dim ond marwolaeth Crist sy'n ymdrin â phroblem y galon ddynol.

Mae *Les Misérables* yn adrodd stori troseddwr, sef Jean Valjean. Ac yntau'n ddyn caled a chwerw, mae wedi treulio pedair blynedd ar bymtheg mewn carchar. Ar ôl cael ei ryddhau, mae'n cael amser anodd iawn dod o hyd i waith neu loches oherwydd nad oes unrhyw un eisiau cael unrhyw beth i'w wneud ag ef. Ond o'r diwedd mae esgob caredig yn rhoi lle iddo aros a bwyd iddo i'w fwyta. Ond, yng nghanol y nos, mae Valjean yn cripian lawr y grisiau ac yn dwyn arian yr esgob. Mae'n cael ei ddal gan dri chwnstabl ac maent yn mynd ag ef yn ôl i dŷ'r esgob. Mae pethau'n edrych yn anobeithiol i Valjean. Mae gan yr esgob gyfle i'w argyhuddo am ei fradychu a sicrhau ei fod yn cael ei garcharu am weddill ei oes. Ond yn hytrach, mae'r esgob yn dweud: "Dyma ble'r wyt ti! Dwi mor falch o dy weld di. Wnes di anghofio fy mod wedi rhoi'r canwyllbrennau i ti hefyd? Maent yn arian fel y gweddill, ac yn werth o leiaf 200 ffranc. Wnes di anghofio mynd â hwy?" Felly gwnaeth y cwnstabliaid adael i Valjean fynd.

Ar ôl iddynt fynd, mae'r esgob yn mynnu ei fod yn cadw'r arian a'r canwyllbrennau, ac yn dweud wrtho: "Paid ag anghofio, paid byth ag anghofio dy fod wedi addo dy fod am ddefnyddio'r arian i wneud dyn gonest ohonot dy hun." Felly mae Valjean yn cael ei ryddhau ac yn cael y canwyllbrennau arian hefyd. Mae Valjean yn dweud, "Pam? Pam wyt ti'n gwneud hyn?" Mae'r esgob yn ateb, "Jean Valjean, fy mrawd, dwyt ti ddim yn perthyn i ddrygioni bellach. Gyda'r arian hwn rwyf wedi prynu dy enaid a nawr rwy'n dy roi yn ôl i Dduw."

Nawr, gallai'r esgob fod wedi trin Valjean mewn un o dair ffordd.

Yn gyntaf, gallai fod wedi trin Valjean gyda *chyfiawnder*. Rhoi iddo'n union yn ôl yr hyn y mae ei weithredoedd yn eu haeddu. Gallai fod wedi dweud, "Rho'r arian yn ôl i mi," gorchymyn i'r cwnstabliaid ei arestio, a sicrhau ei fod yn mynd yn ôl i'r carchar ar ei ben. Dyna fyddai cyfiawnder, rhoi iddo'n union yn ôl ei haeddiant - dim mwy, dim llai.

Neu, gallai fod wedi trin Valjean gyda *thrugaredd.* Gallai fod wedi dweud, "Rwyf eisiau fy arian yn ôl, ond wna i ddim mynd â'r mater ymhellach." Dyna fyddai trugaredd - rhoi rhywfaint yn llai iddo na'r hyn y mae'n ei haeddu.

Y dewis arall sydd ar gael i'r esgob yw'r dewis y mae'n ei wneud: mae'n dangos *gras* tuag at Valjean. Mae'n dweud, "Rwy'n gwybod beth wyt ti wedi'i wneud, y modd yr wyt wedi camddefnyddio fy haelioni, ond gwranda, cadw'r arian a'r canwyllbrennau hefyd. Cei fynd yn rhydd. Yr unig beth rwy'n ei ofyn yw dy fod yn defnyddio'r arian i newid dy fywyd er gwell." Mae'n rhoi rhodd gostus iawn i'r troseddwr sy'n sefyll o'i flaen - rhodd gwbl anhaeddiannol. Dyna beth yw gras, ei drin gyda chariad a haelioni anhaeddiannol.

Allwn ni byth ddeall Cristnogaeth nes ein bod yn gweld ein hunain yn yr un sefyllfa yn union â Valjean. Mae pob un ohonom yn sefyll o flaen Duw fel y gwnaeth Valjean sefyll o flaen yr esgob: yn gwbl euog, yn haeddu barn am y ffordd yr ydym wedi camddefnyddio ei gariad tuag atom, a heb unrhyw ffordd o unioni'r sefyllfa. Ond yn hytrach na'n trin yn y ffordd yr ydym yn ei haeddu, mae Duw yn ei ras a'i haelioni anhygoel wedi cynnig maddeuant i ni - maddeuant a oedd yn bosibl trwy farwolaeth Iesu ar y groes. A chofiwch mai "rhodd gan Dduw" yw'r maddeuant hwn. Does dim byd y gallaf fi ei wneud i'w haeddu.

Yr ateb cywir, eto, yw: "Rwy'n ymddiried yn yr hyn y mae Iesu wedi'i wneud drosof ar y groes: dyna pam y dylai Duw fy ngadael i mewn i'r nefoedd." Wrth gwrs, dim ond ar ôl sylweddoli nad oes gennym bŵer i'n hachub ein hunain y gallwn roi'r ateb hwnnw. Rydym yn troi at Dduw yn llawn dibyniaeth a gwendid, gan sylweddoli na all unrhyw beth yr ydym ni'n ei wneud fod yn ddigon i wella problem y galon ddynol.

Nid yw'n syndod bod rhai pobl yn cael trafferth derbyn hyn. Mae'n anodd iddynt gyfaddef pa mor wan a dibynnol ydynt, ond hefyd mae'n anodd iddynt dderbyn y gall unrhyw beth mor gostus gael ei roi iddynt yn rhad ac am ddim. Mae'n anodd derbyn y rhodd hon gan Dduw pan rydym yn cael ein dysgu trwy'n bywydau ei bod yn rhaid i ni ennill ein swper, ennill ein clod, ennill ein cyflog. Ond y gwir yw nad yw bywyd y Cristion yn ymwneud â dyletswydd. Mae'n ymwneud â derbyn rhodd nad ydym yn ei haeddu, ac yna byw bywyd o ddiolch am y rhodd honno. Yn wir mae "*charis*," y gair Groegaidd am gras, hefyd yn golygu "gorfoleddu."

Ac rydym yn gwybod, cyn gynted ag y byddwn yn derbyn y rhodd hon, y cawn fywyd tragwyddol yn y nefoedd. Rydym yn cael ein derbyn gan Dduw. Ond beth sy'n digwydd yn y cyfamser?

Ysgrifennodd Victor Hugo, "Hapusrwydd mwyaf bywyd yw cael ein hargyhoeddi bod rhywun yn ein caru ni." Ac yn Les Misérables fe welwn fod y maddeuant a'r haelioni anhaeddiannol y mae Valjean yn ei gael gan yr esgob yn newid ei fywyd. Mae'n datgloi ei galon ac yn gollwng y ffrwyn ar ei photensial. Mae'n cael ei brynu rhag ofn a chasineb ac yn dod yn ddyn hynod o hael a thrugarog, gan gyffwrdd nifer o fywydau. Mae'r cyfan yn deillio o'r hunaniaeth newydd y mae wedi'i gael ar ôl i'r esgob ddangos gras tuag ato. sylweddoli, rydym wedi'n caru mwy nag y gwnaethom erioed ei freuddwydio.

Mae Duw yn caniatáu i mi ddod o hyd i'm hunaniaeth, fy ngwerth fel bod dynol, oherwydd mae Duw yn gwybod yn union sut un ydw i, ac eto mae'n fy ngharu beth bynnag. Ac mae hynny'n gymaint o ryddhad! Mae gras yn golygu bod Duw yn gwybod am fy mhechodau ac eto mae'n fy ngharu'n ddiamod. Mae'r groes yn dangos hyn yn glir iawn, oherwydd er bod Iesu'n gwybod sut un ydw i, gwnaeth farw yn fy lle o hyd. Mae'r sawl a fydd yn barnu'r byd yn y pen draw yn fy ngharu'n llwyr ac yn ddigyfnewid. Sut allech chi brofi eich cariad yn fwy na marw dros rywun? Er ein bod yn fwy pechadurus nag y gwnaethom erioed sylweddoli, rydym wedi'n caru mwy nag y gwnaethom erioed ei freuddwydio.

Mae'r cariad diamod hwn yn golygu tri pheth:

> *Dangoswch y penawdau canlynol a'u darllen allan yn uchel*

Nid oes masgiau i'w gwisgo.

Nid oes unrhyw beth i'w brofi.

Nid oes angen dal dig.

NID OES MASGIAU I'W GWISGO

Yn gyntaf, nid oes unrhyw fasgiau i'w gwisgo. Fel y mae Philip Yancey yn ei ddweud yn ei lyfr *What's So Amazing About Grace?*, nid oes "unrhyw beth y gallaf fi ei wneud er mwyn i Dduw fy ngharu i fwy, ac nid oes unrhyw beth y gallaf fi ei wneud er mwyn iddo fy ngharu i lai." Mae Duw yn gwybod yn union sut un ydw i, ac eto mae'n dal i'm caru i. Mae hynny'n golygu nad oes raid i mi esgus gyda Duw. Nid oes angen cuddio y tu ôl i fasgiau. Ydych chi erioed wedi poeni y byddai eich ffrindiau yn meddwl yn ddrwg ohonoch am rywbeth? Efallai eich bod wedi poeni am gael eich camddeall neu am niweidio eich enw da, felly rydych wedi cadw'n dawel. Ond mae Duw yn gwybod y gwir amdanom - ac mae'n llawer gwaeth na'r hyn y mae ein ffrindiau yn ei feddwl. Mae Duw yn gwybod y gwir, ac eto mae'n dal i'm caru. Felly nid oes raid i mi wisgo masg oherwydd mae'n fy ngharu'n ddiamod. Mae'n rhyddhad mawr peidio gorfod cuddio'r gwir amdanom ein hunain bellach.

NID OES UNRHYW BETH I'W BROFI

Yn ail, nid oes unrhyw beth i'w brofi. Gofynnwyd i'r deifiwr Greg Louganis sut oedd yn perfformio mor dda o dan bwysau. Atebodd: "Hyd yn oed os ydw i'n gwneud llanast o'r plymiad hwn, bydd fy mam yn dal i'm caru." Mae'n atgoffa'i hun o'r un berthynas a fydd yn aros yr un peth, waeth sut y mae'n perfformio. Nid oes gan Louganis unrhyw beth i'w brofi i'w fam. Mae'n ei garu beth bynnag.

Ac yn yr un modd, os ydych yn rhoi eich ffydd yng Nghrist, nid oes gennych unrhyw beth i'w brofi i Dduw. Nawr, mae hynny'n wirionedd anhygoel oherwydd rydym yn byw mewn diwylliant o gariad amodol. Yn yr ysgol, rydym yn clywed dro ar ôl tro, "Os cewch chi'r graddau iawn, fe wnawn ni eich cadarnhau a gwneud i chi deimlo bod rhywun yn eich caru. Ond os na wnewch chi, fe wnawn ni dynnu'r cariad hwnnw'n ôl." Wrth i ni fynd yn hŷn, mae'n ymddangos bod pris ar gariad bob amser: "Fe wna i dy garu di os wyt ti'n ddigon ifanc, yn ddigon llwyddiannus, yn ddigon prydferth, yn ddigon talentog, yn ddigon tenau ..." ac yn y blaen. Gall holl fywydau pobl gael eu cyflyru gan y synnwyr, os nad ydynt yn profi eu hunain yn gyson, ni fydd neb yn eu caru. Ond nid yw hynny'n wir am fywyd y Cristion. Mae bywyd y Cristion yn cael ei ysgogi gan gariad diamod, nid cariad amodol. Nid yw'n ymwneud â dyletswydd a phrofi eich hun. Mae'n ymwneud â derbyn rhodd nad ydych yn ei haeddu ac na allwch ei hennill, ac yna byw bywyd o ddiolch am y rhodd honno.

NID OES ANGEN DAL DIG

Yn drydydd, nid oes angen dal dig. Mae gras Duw yn effeithio ar bob perthynas arall sydd gennym. Dysgodd Iesu ei ddilynwyr i weddïo, "Maddau inni ein pechodau, oherwydd yr ydym ninnau yn maddau i bob un sy'n troseddu yn ein herbyn." Nawr, fel y gwyddoch, mae maddau i bobl sy'n troseddu yn eich erbyn yn beth anodd iawn i'w wneud! Ond mae'n llawer haws maddau i eraill pan fyddwn yn cofio cymaint y mae Duw wedi maddau i ni yn y lle cyntaf.

Felly dyma beth yw gras: Duw yn anfon Crist i farw ar y groes er mwyn i mi gael maddeuant, er nad ydw i wedi gwneud unrhyw beth i'w haeddu, er fy mod yn haeddu cosb. Yng ngoleuni hyn, nid oes angen esgus ein bod yn rhywbeth nad ydym neu frolio am yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni, ac mae gennym bob rheswm i faddau'n llawn i'r bobl sy'n troseddu yn ein herbyn.

Gobeithio eich bod yn gweld, er eich bod yn fwy pechadurus nag y gwnaethoch erioed sylweddoli, eich bod wedi'ch caru fwy nad y gwnaethoch erioed freuddwydio.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Pe byddech chi yn esgidiau'r esgob, a fyddech chi wedi rhoi'r canwyllbrennau i Valjean hefyd?**
- **A yw gras wedi newid eich barn chi am Dduw?**
- **Beth mae pobl yn ei wneud fel arfer i gael eu derbyn gan Dduw, os ydynt yn trafferthu o gwbl?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn y tro nesaf, defnyddiwch yr adran ASTUDIO GARTREF yn eich *Llyfr Astudio* i'ch helpu wrth i chi barhau i ddarllen trwy Marc.

> *Dywedwch wrth y sawl sydd wedi dod y bydd penwythnos neu ddiwrnod i ffwrdd ymhen rhai wythnosau. Rhowch syniad bras iddynt o beth fydd yn digwydd a gofynnwch iddynt gadw'r dyddiad yn rhydd.*